Diweddariadau o WCVA

08 Hydref 2018

Helo, a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn ailsiapio'r mudiad fel y gallwn fynd ati i wireddu'r amcanion uchelgeisiol a osodir yn ein gweledigaeth a'n cenhadaeth. Rydym yn chwilio am Reolwr i arwain ein tîm Aelodaeth a Marchnata newydd. Fel Rheolwr fe fyddwch yn darparu arweinyddiaeth strategol gref ar gyfer ein holl waith gydag aelodaeth, marchnata a chyfathrebu, gan sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gefnogi gan raglenni dysgu a digwyddiadau diddorol. Fe fyddwch hefyd yn arwain newid mewn diwylliant mewnol, gan roi ein haelodau wrth wraidd popeth a wnawn. Os yw hynny'n taro tant â chi, llenwch ffurflen gais erbyn 15 Hydref.

Mae hi bron yn amser i aelodau bleidleisio dros eu hwyth hoff enwebai i ymuno â bwrdd ymddiriedolwyr WCVA! Rydym wedi cael nifer digynsail o enwebiadau, sef 25, i'r bwrdd eleni sy'n ardderchog, diolch i bawb a gymerodd ran yn y broses enwebu. Gofynnon ni i'r enwebeion 'Pam y dylai aelodau WCVA bleidleisio drosof i i fod yn ymddiriedolwr?' - gallwch weld eu hymatebion yma a phenderfynu'ch ffefrynnau yn barod at pan fydd y bleidlais yn agor ar 30 Hydref.

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi eto wythnos nesaf.

Gwirfoddoli

'Dwi'n gwirfoddoli i feithrin sgiliau gwaith a hyder'

Mae Michael wedi bod yn gwirfoddoli mewn sawl rôl ers blynyddoedd lawer ac yn ddiweddar fe enillodd dystysgrifau 50 a 100 awr Gwobr Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr - hyfforddiant assesu

Oes gennych chi'r hyn sydd ei angen i fod yn Aseswr Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr? Mae WCVA yn cynnal hyfforddiant yn yr hydref i'r rheini a hoffai ystyried gwneud y gwaith hwn yn y dyfodol.

Angen cymorth gyda gwirfoddolicymru.net?

Yma mae Fiona Liddell, Rheolwr Datblygu Gwirfoddoli WCVA, yn disgrifio'r cymorth sydd ar gael i'r rheini sy'n chwilio am wirfoddolwyr drwy'r llwyfan gwirfoddoli newydd.

Cyffredinol WCVA

Sefydliad Help4Wales yn ennill gwobr Menter Gymdeithasol Newydd y Flwyddyn

Mae'r fenter gymdeithasol Help4Wales wedi ennill Menter Gymdeithasol Newydd y Flwyddyn yng Ngwobrau Busnesau Newydd Cymru eleni, a noddir gan WCVA.

Hoffech chi wneud eich mudiad yn fwy cynaliadwy?

Cymerwch olwg ar dudalennau gwe Buddsoddi yn Natur Cymru i ddeall sut y gallwch wneud eich mudiad yn fwy parod i ymdopi â materion a fydd yn effeithio ar lesiant yn y dyfodol...

Cyffredinol trydydd sector

Pwyllgor Argyfyngau Cymru yn lansio Apêl Tswnami Indonesia

Mae elusennau blaenllaw o Gymru wedi lansio apêl codi arian ar y cyd fel rhan o ymdrech ehangach ledled Prydain gan Bwyllgor Argyfyngau Cymru (DEC), i helpu'r rheini sydd wedi goroesi'r daeargryn maint 7.4 a'r tswnami a darodd dalaith Central Sulawesi, Indonesia, ddydd Gwener diwethaf.

Cyllid

Cyllid newydd wythnos yma

Dyma grynodeb o gyfleoedd cyllido yng Nghymru wythnos yma.

Diweddariad Cyllid Chwarterol Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhifyn yr hydref 2018 ar gael nawr

Hyfforddiant a digwyddiadau

Defnyddio llwyfan digidol Gwirfoddoli Cymru gweminar

Dewch i ddysgu sut i ddefnyddio gwefan newydd sbon Gwirfoddoli Cymru

Gwerthuso a monitro canlyniadau

Mesur eich effaith gan ddefnyddio egwyddorion craidd gwerthuso

Gweminar: Arian Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru 2019-2023

Ydych chi'n awyddus i hybu adnoddau naturiol a chefnogi cymunedau Cymru? Dewch i gael gwybod mwy am grant newydd Llywodraeth Cymru yn ein gweminar 11.10.18

Hybu Perfformiad a Lles: Hyfforddi a Mentora yn y Gweithle

Mae Athrofa Cymru ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith (ACDSaW) wrth ei bodd i gyhoeddi ei Chynhadledd undydd cyntaf ar Hyfforddi a Mentora yn y Gweithle.

Ymddiriedolwyr a llywodraethu

ddathlu Wythnos Ymddiriedolwyr

Cynhelir Wythnos Ymddiriedolwyr 2018 rhwng 12 ac 16 Tachwedd

Polisi a gwleidyddiaeth

Cymerwch Ran yn yr Arolwg Mawr Iechyd Meddwl

Mae Mind Cymru yn awyddus i ddysgu am brofiadau pobl o gymorth iechyd meddwl a ddarperir gan ofal sylfaenol a'r trydydd sector, ac unrhyw brofiadau o wahaniaethu.

Ymgynghoriadau'r wythnos hon

Sut y gall diwylliant fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol?

Sioeau teithiol i godi ymwybyddiaeth o glefyd yr afu

Mae Ymddiriedolaeth Afu Prydain yn mynd â'i Sioeau Teithiol Caru Eich Afu (Love Your Liver) o amgylch Cymru.

£500 miliwn i iechyd a gofal cymdeithasol yn hawlio'r sylw wrth gyhoeddi'r Gyllideb ddrafft amlinellol

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford, wedi cyhoeddi Cyllideb ddrafft amlinellol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20.

Llywodraeth Cymru – Llesiant Cymru 2017-18 Adroddiad

Adroddiad ar ein cynnydd fel cenedl yn erbyn y 7 nod llesiant gan gyfeirio at y 46 dangosydd cenedlaethol.

This week's updates from WCVA

08 October 2018

Hello, and welcome to this week's newsletter.

The past few months we've been reshaping the organisation so that we can best deliver on the ambitious goals set out in our vision and mission. We're looking for a Manager to head up our new Marketing & Membership team. As Manager you'll be providing strong strategic leadership across our membership, marketing and communications work, ensuring delivery is supported by engaging learning and events programmes. You will also be leading an internal culture change, putting our members at the heart of everything we do. If you think you fit the bill, fill in an application by 15 October.

It's almost time for members to vote for their top eight nominees to join WCVA's board of trustees! We received an unprecedented 25 nominations to the board this year which is outstanding, thank you to everyone that got involved in the nomination process. We asked the nominees 'Why should WCVA's members vote for you to be a trustee?' - view their responses here and get your faves ready for when voting opens on 30 October.

Thanks for reading, we'll see you all again next week.

Volunteering

‘I volunteer to build my work skills and confidence’

Michael, has been volunteering in several roles for many years and has recently been awarded the 50 and 100 hour Millennium Volunteer Award certificates

Investing in Volunteers - assessor training

Do you have what it takes to be an Investing in Volunteers Assessor? WCVA is running training in the autumn for those who would like to consider undertaking this work in the future.

Need help with volunteering-wales.net?

Fiona Liddell, Volunteering Development Manager WCVA, describes some of the assistance that is available to those looking for volunteers through the new volunteering platform.

WCVA general

Help4Wales Foundation wins Social Startup of the Year award

Social enterprise Help4Wales foundation have won Social Enterprise of the Year at this year’s Wales Startup Awards, sponsored by WCVA.

Do you want to make your organisation more sustainable?

Check out our Invest in Nature Cymru webpages to understand how you can make your organisation more resilient to issues which will impact upon future well-being…

Third sector general

Indonesia Tsunami Appeal launched by Disasters Emergency Committee Cymru

Leading Welsh charities have launched a joint fundraising appeal as part of a wider UK effort by the Disasters Emergency Committee Cymru (DEC), to help the survivors of the 7.4 magnitude earthquake and tsunami that struck Central Sulawesi Province, Indonesia, last Friday.

Funding

This week's new funding

Here's a roundup of this week's fundraising opportunities in Wales.

Natural Resources Wales Quarterly Funding Update

Autumn 2018 issue now available

Training and events

Using the Volunteering Wales digital platform webinar

Learn how to use the brand new Volunteering Wales website

Evaluating and monitoring outcomes

Measure your impact using the key principles of evaluation

Webinar: Enabling Natural Resources and Well-being in Wales 2019-2023 Grant Funding

Do you want to enhance natural resources and support communities in Wales? Find out more about new Welsh Government grant funding from our webinar 11.10.18

Enhancing Performance and Wellbeing: Coaching and Mentoring in the Workplace

The Wales Institute for Work Based Learning (WIWBL) is delighted to announce its inaugural one-day Conference on Coaching and Mentoring in the Workplace.

Trustees and governance

Celebrate Trustees' Week

Trustees Week 2018 takes place from the 12 - 16 November

Policy and politics

Take the Big Mental Health Survey

Mind Cymru are seeking to learn about people’s experiences of mental health support provided by primary care and the third sector, and any experiences of discrimination.

This week’s consultations

How can culture tackle poverty and exclusion?

Roadshows to raise awareness of liver disease

The British Liver Trust is taking its Love Your Liver Roadshows around Wales.

£500 million for health and social care heads outline draft Budget announcements

The Cabinet Secretary for Finance, Mark Drakeford, has unveiled Welsh Government's outline draft Budget for 2019-20.

Welsh Government – Well-being of Wales 2017-18 Report

A report presenting the progress we are making as a nation against the 7 well-being goals by reference to the 46 national indicators.